14 Gorffenaf 2015

**Dr. Emyr Roberts**

Prif Weithredwr

Cyfoeth Naturiol Cymru

Annwyl Emyr

# Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu Blynyddol 2015

Yn ystod y gwanwyn fe wnaethom gasglu tystiolaeth amrywiol mewn perthynas â datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ers creu'r corff ar 1 Ebrill 2013.

Gan dderbyn bod dwy flynedd ers uno, ar y raddfa a wynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn bwynt cymharol gynnar i lunio casgliadau ar berfformiad, credwn ei bod yn amser addas i fesur cynnydd. Rydym yn canmol Cyfoeth Naturiol Cymru am gynnal arolwg staff ar yr adeg hon ac yn cymeradwyo'r ffaith eich bod wedi rhannu'r canlyniadau â'r Pwyllgor.

Fe fyddwch yn ymwybodol bod llawer o'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom yn feirniadol o berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru mewn amrywiaeth o feysydd. Roedd rhywfaint o'r dystiolaeth yn fwy ffafriol, yn enwedig y dystiolaeth a gafwyd gan ddiwydiannau graddfa fawr. Rhoddom y themâu a gododd o'r dystiolaeth hon i chi a'r Athro Matthews yn ein cyfarfod ar 6 Mai 2015.

Fel sylw cyffredinol, mae'n ymddangos bod pellter rhwng y ddealltwriaeth sydd gennych chi a'r Athro Matthews, ym mhen uchaf y sefydliad, o gynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru, a chanfyddiadau rhai o'ch rhanddeiliaid allweddol ar lawr gwlad; yn enwedig barn cyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â'r Amgylchedd. Yn ogystal, mae'n ymddangos o'ch arolwg staff diweddar nad yw barn y sefydliad, a gyflwynoch i ni yn y sesiwn hon ac mewn sesiynau blaenorol, yr un fath â barn llawer o'ch staff yn y rheng flaen cyflawni.

Ar sail y dystiolaeth a gawsom, nid yw'n ymddangos bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn deall yn glir beth yw ei bwrpas fel sefydliad. Er ein bod yn derbyn bod Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi cyfle i egluro hyn yn y gyfraith, rydym yn credu y dylid fod wedi mynegi diben clir o'r cychwyn cyntaf i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol - yn enwedig o ystyried bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cynghori Llywodraeth Cymru ar gynnwys y Bil.

Mae'r rhain yn bryderon cymharol sylweddol, ac mae llawer o'r materion mwy penodol a godwyd drwy'r gwaith hwn yn deillio o'r dryswch sy'n bodoli o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch ei bwrpas a'r diffyg ymwybyddiaeth ymddangosiadol ar frig Cyfoeth Naturiol Cymru o sut mae'n cael ei weld ar lawr gwlad gan randdeiliaid allweddol a staff.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym yn credu bod angen gwrando ar rai o'r negeseuon cryf a geir yn y dystiolaeth a gawsom, a bod angen gweithredu arnynt yn fuan iawn. Rwy'n gosod y rhain dan nifer o benawdau isod.

## Cyfathrebu â staff

Nid oes angen i ni ailadrodd canlyniadau eich arolwg staff, ac roedd yn amlwg o'ch tystiolaeth eich bod wedi ystyried yr angen am gyfathrebu gwell â'ch staff. Rydym yn pryderu o glywed sylwadau'r Athro Matthews fod morâl staff wedi cyrraedd y gwaelod isaf, a rhywbeth o bryder neilltuol i ni oedd eich cydnabyddiaeth mai dim ond yn ddiweddar y mae rhai aelodau o staff wedi dod i wybod pwy yw eu rheolwr llinell.

Mae rhanddeiliaid allanol yn ymwybodol o fwlch rhwng uwch reolwyr a staff ar lawr gwlad. Fel enghraifft, dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru wrthym eu bod nhw weithiau'n gwybod mwy am bolisïau Cyfoeth Naturiol Cymru na swyddogion y corff ei hunan ar lawr gwlad.

## Sgiliau

Mewn sesiynau blaenorol gyda ni, rydych wedi pwysleisio'r angen i ail-broffilio sgiliau staff i gwrdd â'r gofynion sydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cwrdd ag arbedion yr achos busnes, gan gyflawni nifer cynyddol o swyddogaethau'r un pryd. Clywsom hefyd mewn tystiolaeth gan randdeiliaid fod y cynlluniau diswyddo gwirfoddol wedi cael effaith anghymesur ar y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau cadwraeth natur, pysgodfeydd a choedwigaeth. Cawsom ein calonogi clywed eich bod yn ar fin cyflwyno eich cynnig hyfforddiant i staff, ond byddem wedi disgwyl i hyn gael ei gyflwyno'n gynharach, gan y gall fod yn ffactor sy'n cyfrannu at rai o'r adroddiadau a gawsom am anghysondeb cyngor; morâl staff; a chyflawni swyddogaethau.

## Cysondeb y cyngor a'r cymorth i gwsmeriaid

Clywsom safbwyntiau gwahanol ar ba mor rhwydd oedd hi i randdeiliaid gysylltu â staff. Roedd y gwasanaeth a ddarperir gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu argraff dda ar gynrychiolwyr diwydiant. Ar y llaw arall, disgrifiwyd profiad gwahanol gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol, undebau'r ffermwyr a rhanddeiliaid pysgota. Dywedasant wrthym eu bod wedi colli llawer o gysylltiadau hir sefydlog a'i bod yn anodd cysylltu â'r corff erbyn hyn, yn enwedig ar lefelau uwch.

**Gofynnwn i chi ymchwilio i'r hyn sy'n achosi'r gwahaniaeth hwn ym mhrofiad cwsmeriaid rhwng y sectorau, a rhoi manylion am sut byddwch yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid.**

Darlun cymysg a gafwyd gan sefydliadau pysgodfeydd. Roedd gan Sefydliad Gwy ac Wysg berthynas hirsefydlog ac adeiladol â Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn eu hymatebion ysgrifenedig, mynegodd sefydliadau pysgodfeydd eraill rwystredigaeth â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ddeorfeydd. Er bod Sefydliad Gwy ac Wysg a'r Gymdeithas Eogiaid a Brithyll wedi cytuno â'r penderfyniad i gau'r deorfeydd, dywedasant y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddysgu nifer o wersi cysylltiadau cyhoeddus o'r ffordd yr ymdriniodd y corff â'r penderfyniad. Dywedasant y gellid gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ac ymgysylltu â sefydliadau pysgota lleol.

Mynegodd NFU Cymru rai pryderon hefyd nad ymgynghorwyd â pherchenogion tir ym mhob achos ynghylch penderfyniadau a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac y gellid gwella cyfathrebu â'r diwydiant.

Yn eu hymatebion ysgrifenedig, fe wnaeth nifer o randdeiliaid amlinellu eu cred bod diffyg eglurder ynghylch pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru wedi arwain at ddarparu cyngor anghyson ar gynllunio a chaniatáu gan wahanol rannau o'r corff. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiria Cyfeillion y Ddaear Cymru at bapur a ystyriwyd gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Rhagfyr 2013 lle mae rhai o'r problemau hyn yn cael eu cydnabod. Nodwyd yn y papur, bryd hynny:

'[Nad] oes cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ei wneud wrth fod yn rhan o achosion cynllunio a datblygu'

ac:

'[Nad] yw staff yn gwybod yn iawn a ddylent fod yn esbonio diben Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cyngor, ac os felly, sut.'

Mae Papur y Bwrdd yn nodi nifer o risgiau os na chymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mynegwyd pryderon ynghylch cysondeb y cyngor sy'n cael ei ddarparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'i swyddogaethau cynllunio a chaniatáu gan Dŵr Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Vattenfall, Ymddiriedolaethau Natur Cymru, RSPB Cymru, CONFOR, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac NFU Cymru. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn tynnu sylw at newid penodol yn fformat y cyngor ysgrifenedig sy'n cael ei ddarparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Maent yn nodi bod y corff yn aml yn dweud nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad ffurfiol i gynnig penodol, ond ei fod yn rhestru meysydd pryder difrifol sydd ganddo am

effeithiau posibl yn yr un ymateb. Mae hyn, ym marn yr Ymddiriedolaethau, yn creu dryswch i swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau etholedig, a gall achosi problemau yn ddiweddarach os bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n delio â thrwyddedau amgylcheddol dilynol cais cynllunio a gymeradwywyd yn codi'r pryderon hyn fel rhesymau pam na fydd trwydded yn cael ei chaniatáu o bosibl. Darperir enghreifftiau o achosion penodol gan Ymddiriedolaethau Natur Cymru yn eu papur. Yn ei dystiolaeth lafar, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn yr un modd â'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru a rhai awdurdodau lleol, hefyd yn mynegi pryder am gyngor generig neu gyngor sy'n cyrraedd yr isafswm yn unig yn cael ei ddarparu, o gymharu hynny â'r cyngor a gawsant gan gyrff rhagflaenol.

Rydym yn falch eich bod yn cymryd camau i wella cysondeb y cyngor drwy sefydlu un tîm, ond mae'n ymddangos nad yw’r gwelliannau hyn wedi cael eu trosglwyddo i fod yn welliannau ar lawr gwlad hyd yn hyn.

## Dull o ymdrin â'r trydydd sector a phrosesau grantiau

Clywsom gan randdeiliaid Trydydd Sector bod y berthynas rhyngddynt a Cyfoeth Naturiol Cymru dan straen. Fel rydych wedi cydnabod, mae partneriaethau rhwng y corff a'r Trydydd Sector yn hanfodol os ydyw am gyflawni ei amcanion. Rydym wedi mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfathrebu a thryloywder mewn mannau eraill yn y llythyr hwn.

Un maes sy'n achosi problemau penodol yw prosesau grantiau. Cawsom dystiolaeth sy'n awgrymu bod disgwyl i sefydliadau'r Trydydd Sector redeg prosiectau partneriaeth ar golled oherwydd y cyfyngiad a roddwyd ar adennill costau am gyflawni prosiectau. Mae'r rhain yn amgylchiadau annerbyniol ac anghynaliadwy. Mae Ymddiriedolaethau Natur Cymru wedi nodi eu pryderon yn fanwl i ni, a gofynnaf i chi ymchwilio i’r pryderon hyn a mynd i'r afael â nhw (atodaf yr ohebiaeth a gawsom gan Rachel Sharp, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaethau Natur Cymru). Rydym yn pryderu y gallai hyn dorri cod arferion da Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer y Trydydd Sector.

**Gofynnwn i chi nodi sut byddwch yn sicrhau y bydd partneriaid Trydydd Sector yn cael eu cefnogi'n briodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cylchoedd grantiau yn y dyfodol fel y gallwn brofi hyn mewn cymhariaeth â phrofiad rhanddeiliaid yn y blynyddoedd a ddaw.**

Mynegodd sefydliadau'r Trydydd Sector ac awdurdodau lleol gyfres o bryderon ynghylch rheolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o'i brosesau grantiau ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Bod canllawiau a chyngor a roddir i gyrff gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn anghyson ac yn newid;
- Bod yr amserlenni a ddarperir ar gyfer ceisiadau yn afrealistig;
- Bod yr amser a gymerwyd i wneud penderfyniadau yn rhy hir;
- Bod capio costau gorbenion ar 7% yn gwneud prosiectau’n anghynaliadwy i gyrff anllywodraethol (pwynt y cyfeirir ato uchod);
- Bod oedi cyn i sefydliadau llwyddiannus gael llythyrau cynnig ffurfiol; a
- Bod anawsterau’n cael eu hachosi pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hwyr yn talu anfonebau grantiau.

**Gofynnwn i chi nodi a ydych yn cydnabod y pryderon hyn, a'r camau rydych yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â nhw.**

Yn ystod tystiolaeth lafar, clywsom hefyd y gall prosesau gweinyddol sy'n ofynnol dan y cynlluniau hyn fod yn rhy fiwrocrataidd, ac y gallent fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

**Gofynnwn i chi adolygu’r pryderon a godwyd ac adrodd i ni ar y gofynion archwilio y disgwylir i chi eu cyflawni yn hyn o beth, ac a oes modd gwneud y dull rydych wedi ei ddefnyddio yn llai beichus ar y rhai sy'n derbyn grantiau.**

## Tryloywder

Mewn rhai ffyrdd, rydych wedi dangos lefel ganmoladwy o dryloywder.  Yn benodol, roedd cyhoeddi canlyniadau eich arolwg staff yn gam beiddgar ac yn rhywbeth na fyddai sefydliadau eraill wedi bod yn barod i'w wynebu mor agored, efallai.

Mewn meysydd eraill o weithgarwch, rydym yn credu y gallech fynd ymhellach.

Soniasoch mewn tystiolaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi ei holl ymatebion i geisiadau cynllunio. **Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau bod hyn yn wir a rhoi gwybod i ni ymhle mae'r ymatebion hyn yn cael eu cyhoeddi.**

Rydym hefyd yn credu y gallech gyhoeddi rhagor o wybodaeth yn rhagweithiol ynghylch prosesau eraill gwneud penderfyniadau, gan gynnwys gohebiaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.  Ni ddylai rhanddeiliaid orfod troi at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i ddeall prosesau gwneud penderfyniadau, a gallai'r cam hwn helpu i roi sicrwydd i randdeiliaid o'ch annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

O ran annibyniaeth ar y Llywodraeth, mae yna ganfyddiad gan rai rhanddeiliaid bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhy agos at y Llywodraeth. Yr enghraifft amlycaf a ddarparwyd i ni o hyn oedd mewn perthynas â Chylchffordd Cymru.

Mae'r enghraifft hon yn pwysleisio'r angen am dryloywder, ac rydym yn credu y dylid mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi'r holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru pan fydd y corff yn darparu cyngor annibynnol ar dystiolaeth amgylcheddol, er mwyn galluogi'r cyhoedd i graffu.  Mae'n hanfodol nad yw pryderon ynghylch annibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Llywodraeth yn cael eu hanwybyddu a'u bod yn cael sylw drwy lefel uwch o dryloywder.

Ein tasg ni yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a phe baech chi, neu Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn dymuno defnyddio'r Pwyllgor fel cyfrwng i godi unrhyw bryder a allai fod gennych am eich perthynas â Llywodraeth Cymru, yna byddem wrth gwrs yn rhoi ystyriaeth o ddifrif i unrhyw gynrychiolaeth o'r fath ac yn gweithredu yn unol â hynny.

## Achos busnes

Ar adeg ein sesiwn graffu gyda chi, nid oedd y ffigurau diweddaraf yn ymwneud â chynnydd ar amcanion yr achos busnes ar gael.  **Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y rhain atom cyn gynted ag y gallwch.**

## Y cyrff rhagflaenol

Cafwyd datganiadau cryf ynghylch y cyrff rhagflaenol gan yr Athro Matthews.  Ers hynny rydym wedi cael gohebiaeth gan Roger Thomas, cyn Brif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yn herio hyn. Amgaeaf gopi o'r ohebiaeth hon.

**Gofynnwn i chi neu'r Athro Matthews roi esboniad ysgrifenedig i ni o'r sylwadau hyn, ac wrth wneud hynny, gofynnwn i chi fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn yr ohebiaeth gan Mr Thomas.**

## Casgliad

Mae'r llythyr hwn yn codi nifer o bryderon ac yn tynnu sylw at nifer o heriau parhaus i Cyfoeth Naturiol Cymru fynd i'r afael â nhw.

Fel pwyllgor, ac fel Aelodau Cynulliad sy'n ymwneud â myrdd o faterion yn ein hetholaethau a'n rhanbarthau gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn ymwybodol iawn o'r lefelau uchel o broffesiynoldeb, gwybodaeth, arbenigedd ac ymrwymiad a ddangosir ganddynt yn ddyddiol.  Gwnawn y feirniadaeth hon gan wybod y gellir mynd i'r afael â llawer o'r materion sydd wedi cyfrannu at bryderon rhanddeiliaid a morâl isel staff os bydd gwelliannau'n cael eu gwneud yn awr.

Yn gywir

**Alun Ffred Jones AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

C.c. Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol